



Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref ATISN 9766

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

9 Hydref, 2015

Gareth Clubb

gareth.clubb@foe.co.uk

Annwyl Mr Clubb

Cais am wybodaeth – ATISN 9766

Diolch ichi am eich gohebiaeth dyddiedig 23 Medi lle rydych yn gwneud cais am wybodaeth ddiwygiedig. Rydych wedi gofyn am wybodaeth am yr arddangosfeydd a gynhaliwyd ynghylch yr M4 (rhwng 7 a 26 Medi).

1. *Pwy wnaeth gymeradwyo'r ffigurau a ymddangosodd yn y pamffledi?*
2. *Pwy wnaeth gymeradwyo'r ddogfen derfynol?*
3. *A wnaeth y Gweinidog gyfrannu at y penderfyniad ynghylch y ffigurau a ddewiswyd?*
4. *Yr holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r ffigurau a ddewiswyd / gwerthuso'r ffigurau.*

Cyfarwyddwr y Prosiect a gymeradwyodd y ffigurau terfynol a ymddangosodd yn y pamffledi a'r ddogfen derfynol. Adolygwyd y pamffledi a'r ddogfen derfynol, oedd yn cynnwys ffigurau, gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth a hynny cyn iddyn nhw gael eu cyhoeddi. Ynghylch cwestiwn 4, rwyf wedi cynnal ymholiad cychwynnol am yr wybodaeth yr ydych yn gofyn amdani ac er mwyn ystyried eich cais, rwyf wedi dod i'r canlyniad y byddai'n costio mwy na'r terfyn priodol a nodir yn y Rheoliadau Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data (Terfyn Priodol a Ffioedd) 2004. Y terfyn priodol sydd wedi'i nodi ar gyfer llywodraeth ganolog yw £600. Wrth amcangyfrif a yw'ch cais yn fwy na'r terfyn priodol, mae gennyf hawl i ystyried yr amser y byddai'n gymryd i sefydlu a yw'r wybodaeth gennym ni a'i peidio, i ganfod ac adfer yr wybodaeth berthnasol a'i thynnu o'i lleoliad. Os rhagwelir y byddai'r tasgau hyn yn cymryd mwy na 24 o oriau gwaith, byddwn yn mynd dros y terfyn.

Yn ystod ymarfer cwmpasu cychwynnol lle bu 3 o'n swyddogion yn chwilio trwy systemau ffeilio electronig gan ddefnyddio'r ymadroddion 'ffigurau'r M4' ac 'arddangosfa/arddangosfeydd yr M4', daethant o hyd i dros 1000 o eitemau perthnasol. O dan y Rheoliadau, mae'n rhaid mynd ati i ymgynghori ar bob un o'r dogfennau sy'n golygu y byddai'r amser y byddai'n cymryd i ganfod ac adfer yr wybodaeth a'i thynnu o'i lleoliad yn cymryd llawer iawn hirach na 24 awr. Gan fod llawer iawn mwy o swyddogion wedi bod yn rhan o'r arddangosfeydd hyn, byddai'n rhaid inni ymgynghori â hwythau hefyd yn ogystal â chynnal chwiliadau tebyg. Hyd yn oed fel amcangyfrif ceidwadol, byddai'r amser a'r adnoddau y byddai'n gymryd i ddod o hyd i'r wybodaeth, ei chanfod a'i hadfer yn llawer iawn hirach na 24 awr. Gan fod hyn yn fwy na'r amser a nodir yn Rheoliadau Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data (Terfyn Priodol a Ffioedd) 2004, rwyf wedi penderfynu gwrthod eich cais.

Gallwch fireinio eich cais drwy ddatgan yn fwy penodol pa wybodaeth yr hoffech ei chael. Os ydych yn dewis mireinio eich cais fel hyn, bydd yn cael ei drin fel cais newydd.

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ymateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru yn:

Uned Hawl i Wybodaeth,
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ
Neu e-bostiwrch: FreedomOfInformationOfficer@cymru.gsi.gov.uk

Hefyd, cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hefyd hawl i gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth,
Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir

Matt Jones
Peiriannydd Prosiect